P WG 11 WG35-S-55

# CAN ALARUS

A GYFANSODDWYD ER COFFADWRIAETH AM

## MARY FRANCIS,

*Yr hon a syrthiodd i lawr i bwll y Morfa, nos Wener* 188 *yards, Hydref* 25, 1851,*—yr hwn oedd Wyth ugain llath ag Wyth o ddyfnder.*

—o—

1

Beth yw'r cwynfan a'r galaru ?
  Beth yw'r ochain yma sydd ?
Beth yw'r newyddion trist anhyfryd
  Ddaw i'n clustiau ni bob dydd ?
Angeu, angeu, elyn chwerw
  Sydd yn tramwy trwy ein gwlad,
Gan fyn'd a hoff gyfeillion mwynion,
  A'u rhoi'n isel iawn dan dra'd.

2

Galar sydd yn Aberafon,
  A'r Taibach, yn dyddiau hyn,
Wrth feddwl am yr eneth liwdeg
  Ga'dd ei rhoddi yn y glyn.
Ar y pummed dydd ar hugain
  Y bu'r tro galarus hyn ;
Y mai i ni'n rhybydd pwysig,
  Trwy'r gym'dogaeth, fro a bryn.

3

Dwy ar hugain mlwydd o oedran,
  Trwm yw meddwl am y tro,
Y digwyddodd mor annedwydd,
  Cwyned pawb trwy fryn a bro:
Geneth fywiog yn y boreu
  Yn codi'n eithaf llon ei gwedd,
Cyn yr hwyr, ei rhan ddaearol
  Alwai'n uchel am y bedd.

XR05 305979

4

Ar nos Wener. 'nol yr hanes
  Aeth yr eneth liwdeg lon,
Heb un meddwl buasai iddi
  Roi ffarwel i'r ddaear hon.
Gadael tŷ ei mham yn serchog,
  Brodyr a chwiorydd mâd;
I fyn'd lawr at bwll y Morfa
  I gael derbyn cyfri'i thad.

5

Nid oedd yn meddwl wrth fyn'd allau
  A gadael ei chyfeillion 'nol,
Buasai iddi gwrdd ag angau
  Cyn y troai yn ei hol;
Ond er galar i'w pherth'nasau,
  Ac i'w thad a'i mham ei hun,
I lawr i'r pwll, Och! hi a syrthiodd,
  Mae'n achos galar i bob un.

6

Golwg hardd oedd ar yr eneth,
  Pan yn rhodio hyn o fyd,
Nid oedd un i'w chael mwy serchog
  Yn Taibach e'i chwilio gyd;
Ond pan gafwyd ei gwael babell
  Gan ei hoff gyfeillion mâd,
Ar lawr y pwll yr oedd yn ddarnau,
  Pwy na thiemla dros ei thad?

7

O'r fath olwg! Pwy nad wylai!
  I gym'dogion yn y lle;
Gwel'd y corph a'r lawr yn ddrylliau
  Oedd yn iach cyn gadael tre,
Gwel'd ei 'menydd yma ac acw,
  A'i thad ei hun oedd yno'n bod,
Yn ei gasglu at ei gilydd
  Ai hadnabod wrth ei thro'd,

8

Och ! i'r eneth gwrdd ag angeu
 Mewn rhyw ffordd anhyfryd iawn,
Er bod yn holl iach yn y boreu,
 A'i thori lawr cyn y prydnawn,
Da yw bod mewn cyflwr parod,
 Er myn'd uwch y byd a'i boen,
I blith seintiau ac angyllion,
 I foli'r croeshoeliedig Oen,

9

Y mae pawb o'i hoff gyfeillion
 Yn alarus ar ei hol,
Ond, er cymaint yw y galar
 Byth ni ddychwel hi yn ol.
Mary Francis, byth ni ddylai
 'Th enw di gael myn'd a'r goll;
Pob rhyw amser 'rhoet yn serchog,
 Hyn wyr y cym'dogion oll,

10

Golwg dor-calonus ydoedd
 I'r cym'dogion fach a mawr,
Gwel'd yr eneth liwdeg lawen
 Wedi cael ei thori lawr,
Gwel'd ei hardd gorph wedi'i ddryllio,
 A'r enaid wedi hedeg draw,
At y Duw yr hwn a'i rhoddes
 I derfynau'r byd a ddaw.

11

Chwi berth'nasan tyner galon,
 Na alerwch fwy na mwy,
Mae ei thaith hi wedi darfod,
 Tymor bywyd hi aeth trwy ;
Mwy ni chlywir am un trosedd
 Ar y ddaear a wnaiff hi,
Ni chaiff tad na mam un gofid
 Oddiwrth yr eneth gu.

12

Ie'nenctyn siriol yr ardaloedd,
  Gwyliwch chwithau bob yr un,
Ni wyr neb pa awr, pa fyned,
  Bydd yn dyfod Mab y dyn,
Yr oedd Mary yn y boreu
  'Neithaf iach a llon ei gwawr,
Cyn yr hwyr, O dro anhyfryd !
  Yr oedd wedi ei thori lawr,

13

Yn mynwent Margam bydd yn gorwedd,
  Hyd foreu'r adgyfodiad ddydd,
Pan y bydd y meirw'n dyfod
  O'u carcharau oll yn rhydd ;
Corph y duwiol, er mor waeled,
  Ydoedd yn myn'd lawr i'r bedd,
Pan ddaw Iesu ar y cwmwl,
  Fe a'i coda ar ei wedd.

14

Cyn bo imi 'nawr derfynu,
  'Rwyf yn galw pawb i gyd,
I geisio nabod Iesu'n Gyfaill,
  Cyn yr elont maes o'r byd ;
Dyma Gyfaill pan ddaw angeu,
  A rydd nerth i lawenhau,
Cwyd y corph, a cheidw'r enaid,
  Mewn gogoniant caiff barhau.

15

'Nawr ffarwel berth'nasau tirion,
  A chyfeillion oll y gyd,
Mae pob undeb wedi darfod
  A fu rhyngom yn y byd ;
Fe ddaeth angeu i'm goddiwes,
  Gwyliwch chwithau fe ddaw dydd
Y cewch fyned oll yn gydradd
  I gydorwedd yn y pridd.

**J. W. JONES.**

---

J. F. Arnold, Argraffydd, Caerdydd.